OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 No. 622

# Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015

## RHAN 3

### Aelodaeth o'r cynllun

### PENNOD 1

### Cymhwystra ar gyfer aelodaeth actif

**Cyflogaeth gynllun**

**15.**—(1) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person mewn cyflogaeth gynllun os yw'r person hwnnw yn gyflogedig fel diffoddwr tân gan awdurdod ac yn bodloni'r gofyniad ym mharagraff (2) neu baragraff (3).

(2) Mae person a ddaeth yn gyflogedig ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 yn bodloni'r gofyniad yn y paragraff hwn os yw rôl y person hwnnw pan yw'n ymgymryd â'r gyflogaeth yn cynnwys—

(a) datrys digwyddiadau gweithredol; neu

(b) arwain a chefnogi eraill i ddatrys digwyddiadau gweithredol.

(3) Mae person sy'n aelod trosiannol yn bodloni'r gofyniad yn y paragraff hwn.

(4) Yn y Rheoliadau hyn, cyfeirir at gyflogwr person sydd mewn cyflogaeth gynllun fel y "cyflogwr cynllun".

**Personau cymwys**

**16.**—(1) At ddibenion y Rhan hon, person cymwys yw person sy'n gymwys i fod yn aelod actif o'r cynllun hwn.

(2) Mae person (P) sy'n gwasanaethu mewn cyflogaeth gynllun yn berson cymwys mewn perthynas â'r gyflogaeth honno, onid yw P, mewn perthynas â gwasanaeth yn y gyflogaeth honno—

(a) yn aelod a ddiogelir o Gynllun 1992 neu'r CPNDT; neu

(b) yn aelod o unrhyw gynllun pensiwn arall a'r awdurdod sy'n cyflogi P yn talu cyfraniadau i'r cynllun hwnnw mewn cysylltiad â P.

(3) Mae P yn berson cymwys tra bo ar absenoldeb gwasanaeth lluoedd wrth gefn.

**Gwasanaeth mewn dwy neu ragor o gyflogaethau cynllun**

**17.** Os yw person yn gwasanaethu mewn dwy neu ragor o gyflogaethau cynllun, mae rheoliad 16 (personau cymwys) yn gymwys ar wahân mewn perthynas â phob cyflogaeth (pa un ai yw'r gyflogaeth gyda'r un awdurdod ai peidio).